**Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad yr is-grŵp cyfiawnder**


**Crynodeb**

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfiawnder, a chyfiawnder troseddol yn benodol, yn un o'r prif bethau sy'n peri pwysau yn y setliad presennol. Cyflwynodd Comisiwn Thomas achos cryf dros ddatganoli, ac nid yw'r is-grŵp wedi gweld tystiolaeth i'r gwrthwyneb, ar wahân i hyn a gafwyd gan Lywodraeth y DU yn y llythyr gan yr Arglwydd Bellamy dyddiedig 23 Mawrth 2023. Roedd y llythyr hwnnw'n dadlau bod y system bresennol yn gweithio'n dda ac y byddai newid yn lleihau effeithiolrwydd ac yn cynyddu costau.

Mae hyn yn mynd yn groes i bwysau'r dystiolaeth a nodwyd yn adroddiad Comisiwn Thomas yn 2019 ac ymchwil fwy diweddar gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru. Mae'r ail o'r rhain wedi tynnu sylw at gyfraddau uchel o garcharu a gwrthdaro lle mae swyddogion y ddwy lywodraeth yn ceisio cydweithio er gwaethaf atebolrwyddau cymhleth sy'n gorgyffwrdd.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r grŵp yn awgrymu y gellid cael enillion sylweddol o ran cyflawni polisi cyfiawnder troseddol ataliol a phenydegol drwy well cydlyniant polisi, llywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd pe bai cyfrifoldebau cyfiawnder wedi'u datganoli, fel y maent yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd â'r cysylltiad agosaf â gwasanaethau datganoledig, hynny yw, plismona, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid, gellid sicrhau datganoli gan darfu cyn lleied â phosibl yn y Senedd nesaf.

Dylai datganoli'r gwasanaethau hyn ffurfio'r rhan gyntaf o raglen datganoli cyfiawnder fesul cam dros gyfnod o 10 mlynedd, i'w chyflwyno ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.


**Strwythur**

Mae Rhan 1 y papur yn nodi dull gweithredu'r grŵp, a Rhan 2 yn nodi ei ganfyddiadau. Mae gwaith y grŵp a'r dystiolaeth a gomisiynwyd wedi'u nodi yn yr Atodiad. Dyma aelodau'r is-grŵp:

*Comisiynwyr:* Laura McAllister, Leanne Wood, Lauren McEvatt, Kirsty Williams. *Panel yr Arbenigwyr:* Emyr Lewis, Hugh Rawlings

**1. Dull yr is-grŵp**

Roedd y grŵp yn gallu defnyddio gwaith Comisiwn Thomas, a gyflwynodd adroddiad yn 2019 ynghyd â set gynhwysfawr o argymhellion, wedi'i ategu gan sylfaen dystiolaeth gref, wrth fynd ati i weithio.

Roedd argymhellion Thomas ar gyfer datganoli cyfiawnder a phlismona yn seiliedig ar ddwy ddadl ynghylch egwyddor:

- Cyfansoddiad; Mae Cymru'n allanolyn ('stôl dwy goes') o ran cael deddfwrfa a gweithrediaeth, ond mae ganddi ddiffyg awdurdodaeth gyfreithiol a phwerau cyfiawnder.

- Polisi a chyflawni: mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae'r system gyfiawnder yn dibynnu arnynt ar gyfer atal ac ailsefydlu (tai, iechyd, addysg a hyfforddiant) wedi cael eu datganoli, ond mae asiantaethau cyfiawnder yn atebol i'r Swyddfa Gartref (ar gyfer plismona) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan greu cymhlethdod ac anghysondeb.

Man cychwyn yr is-grŵp oedd bod Thomas wedi cyflwyno achos pwerus dros ddatganoli cyfiawnder, yn seiliedig ar egwyddorion cyfansoddiadol a pholisi, ond nad oedd yn canolbwyntio ar ymarferoldeb gweithredu. Teimlai'r is-grŵp mai'r ffordd orau o ychwanegu gwerth fyddai drwy ganolbwyntio ar yr agwedd hon, gan gynnwys amseru a chamau posibl.

Nid yw Llywodraeth y DU yn derbyn argymhellion Comisiwn Thomas ac fe gyflwynodd yr achos dros dro mewn llythyr dyddiedig 23 Mawrth 2023 gan yr Arglwydd Bellamy, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mewn ymateb i lythyr gan y Cyd-Gadeiryddion yn gofyn am eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth y DU.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd yr Arglwydd Bellamy na ellid cyfiawnhau'r tarfu a achosir gan ddatganoli cyfiawnder er budd y cyhoedd. Mae ei lythyr yn amddiffyn perfformiad y system bresennol ac yn dadlau y byddai datganoli yn lleihau effeithlonrwydd ac yn cynyddu costau. Nid yw ei ateb yn sôn am brawf na throseddu ieuenctid, nac yn rhoi sylwadau ar ba mor ymatebol yw carchardai yng Nghymru i anghenion carcharorion o Gymru.

Cyflwynwyd yr un achos i'r Comisiwn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ysgrifennodd y Cyd-Gadeiryddion at weinidog y Swyddfa Gartref dros blismona ym mis Mawrth 2023 yn gofyn am safbwyntiau ar ddatganoli, ond adeg ysgrifennu hwn, nid oedd ateb wedi dod i law.

Byddai datganoli cyfiawnder yn golygu rhoi pwerau deddfwriaethol a gweithredol i'r Senedd a Gweinidogion Cymru – i'r cyntaf o'r rhain drwy ddileu'r amheuon perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, ac i'r ail o'r rhain drwy drosglwyddo'r pwerau gweithredol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder.

Mae ystyriaethau penodol mewn perthynas â phob rhan o'r system gyfiawnder: plismona, prawf, cyfiawnder ieuenctid, carchardai, llysoedd a thribiwnlysoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae ein gwaith ymgysylltu yn awgrymu efallai fod pryderon y gallai datganoli cyfrifoldeb dros gyfiawnder arwain at wahaniaeth sylweddol mewn cyfraith droseddol rhwng Cymru a Lloegr. Nid ydym yn credu y byddai gwahaniaeth o'r fath yn debygol (er, yn yr un modd â phob mater datganoledig, aelodau etholedig y Senedd a Llywodraeth Cymru fyddai'n gwneud y dewis hwnnw). Nid yw'r ddadl dros ddatganoli cyfiawnder yn seiliedig ar y lle y gallai ei greu ar gyfer newidiadau mewn cyfraith droseddol sylweddol, ond yn hytrach ar y posibilrwydd o bolisïau mwy effeithiol ar gyfer atal troseddu ac aildroseddu, a rheoli troseddwyr. Ar hyn o bryd, mae darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn atal y Senedd rhag deddfu ar y troseddau mwyaf difrifol ac ar egwyddorion sylfaenol atebolrwydd troseddol. Byddai opsiwn i gadw cyfyngiadau o'r fath o dan gynllun datganoli cyfiawnder i Gymru.

## 2. Canfyddiadau o'r dystiolaeth

### Sut y gellid sicrhau datganoli

Byddai datganoli'r cyfrifoldebau dros gyfiawnder a phlismona yn llawn yn ymrwymiad sylweddol, a byddai angen tua 10 mlynedd i'w gwblhau. Dylid ei roi ar waith drwy raglen waith ar y cyd, gydag amcan hirdymor y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arno, mewn partneriaeth â chynrychiolwyr y gweithlu. Os caiff ei gynllunio'n briodol, gellid sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.

Dylai datganoli ddigwydd fesul cam, ond nid fesul tipyn. Dylai adeiladu ar y capasiti sydd eisoes ar gael, gyda hyblygrwydd ar gyfer trosglwyddiadau staff a secondiadau, er mwyn adeiladu ar arbenigedd Llywodraeth Cymru. Dylai'r broses fesul cam ddechrau gyda'r gwasanaethau hynny sydd agosaf at wasanaethau datganoledig a lle gellir trosglwyddo'r unedau gweithredol perthnasol i Lywodraeth Cymru, sef plismona, prawf a chyfiawnder ieuenctid.

### Plismona

Plismona yw'r posibiliad mwyaf syml ar gyfer datganoli, ar y seiliau canlynol:

- Mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru o blaid datganoli plismona.
- Mae tua 40% o wariant heddluoedd Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, gyda'r gweddill yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (amcangyfrifon 2023-24). Byddai angen i'r ddwy lywodraeth negodi'r broses o drosglwyddo elfen Llywodraeth y DU ond, gydag ewyllys da, ni ddylai hyn achosi problemau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi llawer o weithgareddau plismona, gan gynnwys ariannu'r Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol ers 2011.
- Mae'r pedwar gwasanaeth heddlu'n gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gan gynnwys drwy'r Bwrdd

Plismona Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog. Gellid trosglwyddo'r atebolrwydd am y gwaith hwn i'r sefydliadau datganoledig heb fawr o darfu. Gallai perthynas heddluoedd Cymru â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol barhau fel y mae, yn ogystal â'r cydweithio ledled y DU ar wrthderfysgaeth a throseddau difrifol a chyfundrefnol.

- Gallai gwasanaethau'r heddlu yng Nghymru barhau i gymryd rhan yn nhrefniadau Cymru a Lloegr ar gyfer hyfforddi a rheoleiddio'r heddlu; dylai hyn fod yn syml i'w drafod.

**Y Gwasanaeth Prawf**

Fel plismona, mae'r gwasanaeth prawf yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau datganoledig a gellid ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru heb fawr o darfu. Yn dilyn cytundeb mewn egwyddor rhwng y ddwy lywodraeth, gellid mynd ati i ddechrau cynllunio strwythur llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer gwasanaeth prawf yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Ganolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru.

Yn ei ragair i Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Prawf EF 2022-23, mae'r Prif Arolygydd yn gwneud nifer o sylwadau sy'n berthnasol i ddatganoli. Mae'n nodi'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth ar ôl pedwar ad-drefniad strwythurol sylweddol mewn 20 mlynedd, ac mae'n mynegi pryder ynghylch effaith y strwythur 'Un Gwasanaeth Carchardai a Phrawf' unedig newydd ar gyfer carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae'n nodi:

> *Mae profiad blaenorol gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn awgrymu y gall gofynion gwleidyddol a gweithredol o ddydd i ddydd y gwasanaeth carchardai dynnu sylw oddi wrth y Gwasanaeth Prawf a'i anghenion penodol (a gwahanol iawn).*
>
> *Er fy mod yn cydnabod y byddai'n rhaid ad-drefnu'r gwasanaeth eto, a byddai'n rhaid i unrhyw newid i'r cyfeiriad hwn gael ei wneud gyda chytundeb penodol rheolwyr a staff lleol, rwy'n credu bod yr amser wedi dod i gynnal adolygiad annibynnol i ganfod a ddylai'r gwasanaeth prawf symud yn ôl i ffurf fwy lleol o lywodraethu a rheoli, gan adeiladu ar wersi hynod lwyddiannus y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid – roedd 70 y cant o'r rheini yn eu hystyried 'dda' neu'n 'rhagorol' y llynedd.*

Byddai datganoli yn gymharol syml yn ymarferol am y rhesymau canlynol:

- mae strwythur a chyllideb prawf eisoes yn bodoli yng Nghymru, yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a gellid eu trosglwyddo'n rhwydd i Lywodraeth Cymru.
- mae ethos ataliol y gwasanaeth prawf yn cyd-fynd yn agos â pholisïau Llywodraeth Cymru a gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru.
- byddai cyfle i greu strwythur ar gyfer gwasanaeth prawf yng Nghymru, ar y cyd â staff, i gyflawni'r partneriaethau cryf a'r hyblygrwydd gweithredol a argymhellir gan y Prif Arolygydd, fel y trafodir uchod.

**Cyfiawnder ieuenctid**

Mae darpariaeth cyfiawnder ieuenctid yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau a gwasanaethau datganoledig fel addysg, hyfforddiant a hawliau pobl ifanc. Byddai'n hawdd trosglwyddo pwerau gweithredol mewn perthynas â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a thimau troseddau ieuenctid lleol i Lywodraeth Cymru. Byddai angen i'r broses o ddatganoli pwerau deddfwriaethol (hynny yw, peidio â'u cadw yn ôl) mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid gael ei datgysylltu oddi wrth y pwerau ehangach. Bydd canfyddiadau'r gwaith a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan yr Athro Jonathan Evans yn helpu i lywio'r agwedd hon.

**Llysoedd a Thribiwnlysoedd**

Mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd a phenodiadau barnwrol yn gyfrifoldebau lle nad yw'r cysylltiadau â Llywodraeth Cymru wedi datblygu cystal. Byddai datganoli yn galluogi polisi a darpariaeth i adlewyrchu blaenoriaethau a demograffeg cymunedau Cymru, ac i gyd-fynd â chefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau gwybodaeth a chyngor. Ni chafodd yr is-grŵp dystiolaeth ar yr agwedd hon y mae'n ei hystyried yn bosibiliad i ddilyn plismona, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid mewn rhaglen fesul cam. Gellid cysylltu amseriad datganoli â chreu awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol i Gymru, a drafodir ymhellach isod.

**Carchardai**

Byddai datganoli'n galluogi polisi a darpariaeth ar ddedfrydu, adsefydlu, opsiynau eraill yn lle carcharu, a threfniadau ar gyfer rhyddhau, i gael eu datblygu'n gyfannol ar lefel Cymru. Ond byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn creu heriau sylweddol ac mae'n debyg y byddai angen iddo ddod i rym tua diwedd y broses fesul cam.

Gellid teilwra'r gwaith o reoli'r ystad carchardai i anghenion carcharorion o Gymru, a gallai'r arfer o ddefnyddio carchardai yng Nghymru fel cyfleuster gorlif i Loegr ddod i ben. Ond byddai hyn yn gofyn am gyfnod o drawsnewid, mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, ac ni ellid cyflawni'r ddeddfwriaeth a'r gwaith cynllunio angenrheidiol mewn un sesiwn Seneddol. Byddai angen i'r trafodaethau trosglwyddo cyllid ystyried yn llawn ofynion ystad Cymru am gyfalaf, gan gynnwys disodli carchardai Caerdydd ac Abertawe.

**Awdurdodaeth**

Mae'n destun dadl rhwng arbenigwyr a rhanddeiliaid a ddylai datganoli cyfiawnder gael ei ategu gan ddynodiad cyfreithiol ffurfiol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol Cymru, sy'n wahanol neu ar wahân i awdurdodaeth Lloegr, (a pha bryd y dylid gwneud hynny).

Ar hyn o bryd, mae awdurdodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, gydag un system llysoedd, ac mae'r corff cynyddol o gyfreithiau a gynhyrchir gan y sefydliadau datganoledig yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr (er mai dim ond yng Nghymru y mae'n berthnasol).

Mae rhai arbenigwyr yn dadlau bod dynodi awdurdodaeth ar gyfer Cymru yn ddymunol ar sail ymarferol i egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfraith Cymru a Lloegr, a

mater technegol ydyw yn y bôn, sy’n ganlyniad angenrheidiol yn sgil datganoli deddfwriaethol i Gymru.

Mae eraill yn credu bod awdurdodaeth Cymru a Lloegr yn frand a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd o werth sylweddol i gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, ac y byddai creu awdurdodaeth wahanol neu ar wahân yn arwain at oblygiadau cyfansoddiadol ehangach (er na chawsom dystiolaeth i’r perwyl hwn).

Trafododd yr is-grŵp hyn gyda’r Arglwydd Neuberger, cyn-Farnwr y Goruchaf Lys, a ddywedodd na fyddai creu awdurdodaeth ar gyfer Cymru yn achosi unrhyw broblemau mawr i’r farnwriaeth. Roedd y bargyfreithwyr roeddem wedi siarad â nhw yn dadlau y byddai awdurdodaeth ar gyfer Cymru yn creu cyfleoedd newydd i gryfhau’r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a mwy o gymhellion i ymarferwyr uchelgeisiol aros yma neu ddychwelyd i ymarfer yma. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr o’r farn y byddai datganoli yn galluogi dull ymarferol o ddatrys problemau yn y system gyfiawnder. Gallai cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer y proffesiynau cyfreithiol barhau i weithredu ar sail Cymru a Lloegr.

Barn yr is-grŵp yw bod awdurdodaeth de facto ar gyfer Cymru yn datblygu’n organig, ond y bydd angen ei chreu’n ffurfiol drwy statud maes o law, fel rhan o’r rhaglen datganoli fesul cam yr ydym yn ei hyrwyddo. Nid yw’n gymaint o flaenoriaeth â’r gwasanaethau a amlygir uchod ar sail atebolrwydd a chyflawni, a gellid eu cyflawni yn rhan olaf y rhaglen fesul cam. Os bydd Comisiynwyr yn cytuno, dylai ein hadroddiad terfynol ei gwneud yn glir y byddai awdurdodaeth newydd ar gyfer Cymru yn seiliedig ar egwyddorion a thraddodiadau cyfraith gyffredin; byddai’n cyfateb i awdurdodaeth Gogledd Iwerddon yn hytrach nag awdurdodaeth yr Alban, sydd â threftadaeth wahanol.

### Cyllid

Dylid cael cytundeb rhwng y ddwy lywodraeth y bydd y trosglwyddiadau cyllid sy’n ofynnol mewn perthynas â’r naill wasanaeth a’r llall yn amlwg yn deg i’r ddwy ochr, gyda darpariaeth ar gyfer cymrodeddu annibynnol os bydd angen, a chraffu gan y Senedd.

### Data

Cafodd yr is-grŵp dystiolaeth bod prinder data ar berfformiad y system gyfiawnder yng Nghymru yn rhwystr sylweddol o ran gwella ac atebolrwydd. Ar hyn o bryd, mae ymchwil yn dibynnu ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i gael gafael ar ddata ar sail Cymru. Dylid mynd i’r afael â hyn drwy gyhoeddi’r dangosyddion allweddol yn rheolaidd.

### Capasiti a gallu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu ei chapasiti mewn ymateb i adroddiad Thomas, ac mae blociau adeiladu arwyddocaol yn eu lle. Fodd bynnag, dim ond pan fydd Llywodraeth y DU yn cytuno i egwyddor datganoli y gall y gwaith cynllunio ddechrau o ddifrif. Dylid cyflwyno deddfwriaeth i’r perwyl hwnnw yn sesiwn gyntaf y Senedd nesaf, gyda’r ddarpariaeth ar gyfer gweithredu fesul cam yn seiliedig ar

gytundeb rhynglywodraethol ar yr amser a'r broses sydd eu hangen er mwyn cyflawni'n effeithiol.

**Casgliadau**

Dyma gasgliadau'r is-grŵp:

Mae perfformiad y system gyfiawnder yng Nghymru yn destun pryder (fel y nodwyd gan Gomisiwn Thomas yn 2019 a chan yr Athro Richard Wyn Jones a Dr Robert Jones yn '*Justice at the Jagged Edge*' Hydref 2022). Ond nid yw'r ddadl dros ddatganoli'n dibynnu ar y problemau hynny'n unig. Ni fyddai ethol llywodraeth newydd yn y DU sydd â pholisïau a blaenoriaethau gwahanol o reidrwydd yn sicrhau canlyniadau llawer gwell i Gymru.

Mae'r achos dros ddatganoli yn seiliedig ar wendidau o ran llywodraethu, cydlyniant polisi ac atebolrwydd ar lefel Cymru. Byddai'r rhain yn parhau pa blaid bynnag a fyddai'n ffurfio llywodraeth yn San Steffan. Bydd ymrwymiad personol unigolion mewn gwasanaethau wedi'u datganoli ac wedi'u cadw'n ôl ond yn lliniaru canlyniadau methiannau strwythurol sy'n deillio o ddiffyg cysondeb wrth ddyrannu cyfrifoldebau statudol rhwng y naill lywodraeth a'r llall. Ar ben hynny, mae system gyfiawnder Cymru a Lloegr yn wynebu heriau mawr, o ran cyllid ac arweinyddiaeth, ac wrth fynd i'r afael â'r rhain, bydd Cymru bob amser yn flaenoriaeth gymharol isel i Lywodraeth y DU. Gyda datganoli, byddai cyfle i arloesi ac i ddiwygio, gan adeiladu ar arbenigedd y gweithlu cyfiawnder a rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Ni chafodd y grŵp unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol i wrthbrofi casgliadau Comisiwn Thomas, sef y dylid datganoli cyfiawnder a phlismona i'r Senedd ac i Lywodraeth Cymru.

Byddai datganoli'r holl wasanaethau cyfansoddol yn brosiect tymor canolig sylweddol, ond gyda chynllunio a pharatoi gofalus ar y cyd gan y ddwy lywodraeth, gellid cyflawni hyn gan darfu cyn lleied â phosibl ar wasanaethau ar lawr gwlad. Y posibiliadau symlaf i'w datganoli'n gynnar fyddai plismona, prawf a chyfiawnder ieuenctid.

Byddai datganoli'n golygu trosglwyddo gwasanaethau presennol i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chreu capasiti i arfer y cyfrifoldebau newydd yn y Senedd ac yn Llywodraeth Cymru. Ni fyddai hyn yn niwtral o ran cost, a byddai pwysau ar Lywodraeth Cymru i wella'r bylchau a ystyrir yn sylweddol ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, byddai'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Senedd well yn darparu ar gyfer y craffu ychwanegol sydd ei angen, a byddai'r capasiti o ran polisi yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith yn Llywodraeth Cymru. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, byddai datganoli'n galluogi arbedion yn sgil polisïau mwy cydlynol, ataliol ac ymatebol yn lleol, sy'n atebol i bobl Cymru.

Dylai'r ddwy lywodraeth gytuno ar brosiect ar y cyd i gyhoeddi data penodol i Gymru yn rheolaidd, fel sail ar gyfer craffu a gwella perfformiad.

**Atodiad**

**Tystiolaeth**

Mae'r dystiolaeth sy'n sail i ganfyddiadau'r is-grŵp yn cynnwys yr hyn a gafwyd gan yr is-grŵp a'r Comisiwn llawn yn 2023, a thystiolaeth gan yr Arglwydd Thomas, Dr Rob Jones a Gordon Brown a Jim Gallagher yn 2022.

Cynhaliodd yr is-grŵp sesiynau tystiolaeth ar 23 Mawrth, 27 Ebrill a 25 Mai, yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

**Is-grŵp 23 Mawrth**

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – goblygiadau datganoli ar gyfer hyfforddi a rheoleiddio cyfreithwyr

Swyddogion Llywodraeth Cymru – cynnydd ar agweddau datganoledig Thomas, parodrwydd ar gyfer datganoli pellach

Yr Undebau Cyfiawnder (Cymdeithas y Swyddogion Prawf, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas y Swyddogion Carchar, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol) – barn y gweithlu ar ddatganoli.

**Is-grŵp 27 Ebrill**

Yr Arglwydd Neuberger – agweddau cyfansoddiadol ar ddatganoli cyfiawnder

Rhodri Williams CB a David Hughes – goblygiadau i'r Bar

**Is-grŵp 25 Ebrill**

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

**Tystiolaeth i'r Comisiwn llawn ar gyfiawnder a phlismona**

25 Ebrill: Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

6 Mehefin: Cwnsler Cyffredinol

6 Mehefin: Yr Arglwydd Bellamy.